IBO

IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

M03/256/H(2)

**WELSH B – HIGHER LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS B – NIVEAU SUPÉRIEUR – ÉPREUVE 2**
**GALÉS B – NIVEL SUPERIOR – PRUEBA 2**

Thursday 8 May 2003 (afternoon)
Jeudi 8 mai 2003 (après-midi)
Jueves 8 de mayo de 2003 (tarde)

1 h 30 m

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not turn over this examination paper until instructed to do so.
- Choose one task.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas tourner l'épreuve avant d'y être autorisé.
- Choisir une activité.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No dé la vuelta al examen hasta que se lo autoricen.
- Elija una actividad.

*Ysgrifennwch o leiaf **400** gair ar un o'r canlynol.*

1. Mae'r chweched dosbarth yn eich ysgol neu goleg yn ceisio codi swm mawr o arian i helpu adeiladu ysgol newydd mewn pentref tlawd yn Affrica. Ysgrifennwch erthygl ar gyfer eich papur bro lleol yn amlinellu'r brosiect ac yn nodi pam y mae'n haeddu cefnogaeth.

2. Roeddech yn llygad-dyst i wrthdrawiad ffyrnig rhwng dau grŵp o lanciau yng nghanol y dref brynhawn Sadwrn diwethaf. Mae'r heddlu wedi gofyn ichi lunio adroddiad byr am y digwyddiad. Ysgrifennwch eich adroddiad.

3. Mae niferoedd y bobl sydd yn ymweld â'r ganolfan hamdden leol wedi cwympo yn sylweddol yn ddiweddar, a lansiwyd ymgyrch i geisio denu pobl yn ôl. Ysgrifennwch eitem fer i'w darlledu ar yr orsaf radio leol, yn nodi beth sydd gan y ganolfan hamdden i'w gynnig bellach i wahanol garfannau yn y gymuned.

4. Mae gan gylchgrawn eich ysgol neu goleg golofn reolaidd dan y teitl, "Hoff Lyfr: Cas Lyfr", lle mae cyfranwyr yn cael gwahoddiad i ysgrifennu heb flewyn-ar-dafod, gan gymharu a chyferbynnu llyfr a fwynhawyd yn fawr â llyfr na chawsant flas arno o gwbl. Lluniwch gyfraniad ar gyfer y golofn honno, gan roi sylw i faterion fel plot, cymeriadau, lleoliadau a themâu y ddau lyfr a ddewiswyd.

5. Mae eich ffrind gorau wedi symud i fyw dramor am flwyddyn, ac mae'n anhapus iawn. Mewn llythyr atoch yn ddiweddar mae ef / hi wedi cyfaddef ei fod ef / bod hi wedi dechrau arbrofi â chyffuriau. Ysgrifennwch lythyr ato / ati yn egluro'ch pryderon ac yn rhybuddio am beryglon ymhel â chyffuriau.

6. Mae grŵp o fyfyrwyr o'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia yn bwriadu ymweld â'ch ysgol neu goleg cyn bo hir. Gofynnodd y Prifathro ichi fynd â hwy i ymweld ag un neu ddau o atyniadau lleol o ddiddordeb hanesyddol neu ddiwylliannol. Lluniwch daflen i'w rhoi i'r myfyrwyr, a fydd yn gymorth iddyn nhw ddeall a gwerthfawrogi'r atyniad(au) a ddewiswyd.